**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd held at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 9fed Medi, 2019 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor J.Watkins (Chairman)
County Councillor D. Evans (Vice Chairman)

County Councillors: M.Groucutt, F. Taylor, J.Treharne, S. Woodhouse and A.Davies

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Nicola Perry | Uwch Swyddog Democratiaeth |
| Matthew Gatehouse | Pennaeth Polisi a Llywodraethiant |

**APOLOGIES:**

Councillors P. Clarke and G. Howard

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

2. **Disgrifiadau Rôl yr Aelodau**

Nid oedd unrhyw faterion ar gyfer y fforwm agored i'r cyhoedd.

3. **Disgrifiadau Swydd Aelodau**

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i Aelodau ystyried a chymeradwyo'r rhestr o Ddisgrifiadau Swydd Aelodau ar gyfer y gwahanol swyddi sydd gan gynghorwyr o fewn y fframwaith gwleidyddol.

Mae'r adroddiad ar gam drafft a cheisiwyd cymeradwyaeth i'w rannu'n fwy eang, a chaniatáu mwy o fewnbwn gan aelodau a swyddogion.

Byddai hyn hefyd yn llinell sylfaen dda ar gyfer yr Adolygiadau Datblygu Personol.

Croesawodd Aelodau y ddogfen, gan gytuno y byddai hyn yn rhoi mwy o eglurdeb, yn neilltuol ar gyfer aelodau newydd.

Gwnaed awgrymiadau y dylai:

- Aelodau'r Cabinet fod yn fodlon mynychu pwyllgorau craffu lle gofynnir iddynt.
- Llywodraethwyr Awdurdod Lleol – dylid rhoi ystyriaeth i safonau moesegol a pherthnasoedd.
- Gwerthoedd – gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol/ethnig a chrefyddol.
- Arweinydd yr Wrthblaid – nodi arweinydd y grŵp neu blaid gwrthbleidiol mwyaf.

Cytunodd Aelodau lle dynodwyd Aelod Cabinet i Bwyllgor Dethol y dylent wneud eu hunain ar gael i fynychu. Cadarnhaodd y Pennaeth Democratiaeth a Llywodraethiant y dylai hyn gael ei egluro fel rhan o'r adolygiad o'r cyfansoddiad.

Croesawodd y Cadeirydd y disgrifiadau swydd a chytuno y byddai hyn wedi bod yn ddefnyddiol adeg yr etholiad. Canmolodd hefyd y cyfrifoldeb Rhianta Corfforaethol.

Awgrymodd y Pennaeth Llywodraethiant y byddai'n ddelfrydol i alinio hyn gyda'r adolygiad o'r cyfansoddiad ym mis Tachwedd.

**4. Fforwm Agored Cyhoeddus, Absenoldeb Teuluol a Chanllawiau ar Bleidleisio drwy Ddirprwy**

Rhoddwyd gwybodaeth ar gais y Cadeirydd ar y broses Fforwm Agored i'r Cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor, rheolau Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau etholedig a Phleidleisio Dirprwy ar gyfer Aelodau.

Proses Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Cyflwynwyd y mater gan y Cadeirydd oherwydd y datgysylltiad rhwng sut y gall aelodau o'r cyhoedd ymgysylltu os yw'n rhaid cyflwyno cwestiwn i'r Cyngor cyn cyhoeddi'r agenda.

Cytunwyd y dylai'r broses gael ei gwneud mor rhwydd ag sydd modd i ganiatáu ymgysylltu a dylai'r dyddiad cau fod mor hwyr ag sydd modd.

Cynigiwyd y dylid sefydlu is-grŵp newydd i edrych sut y gellid gwneud newidiadau. Gellid alinio hyn gyda'r adolygiad o'r cyfansoddiad.

Cytunodd y Pennaeth Llywodraethiant a Democratiaeth i drafod ymhellach gyda'r Swyddog Monitro.

Absenoldeb Teuluol

Caiff newidiadau eu gwneud mewn bil lleol arfaethedig felly penderfynwyd gohirio nes gallwn adolygu'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru).

Pleidleisio drwy Ddirprwy

Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y cyfansoddiad ar hyn o bryd sy'n galluogi aelodau i benodi aelod arall i bleidleisio ar eu rhan yn eu habsenoldeb.

Awgrymwyd, gan y gellir pleidleisio drwy fynychu o bell, y gellid cyflwyno opsiynau ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy.

Mynawyd pryderon y disgwylid i chi fod yn bresennol ar gyfer yr holl ddadl er mwyn pleidleisio, ac felly gallai tystiolaeth roi pleidleisiau yn erbyn llinellau pleidiol.

Cytunwyd na ddylai fod unrhyw benderfyniad ar sut i bleidleisio cyn cynnal dadl.

Rhoddir diweddariad i'r cyfarfod nesaf.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd held at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 9fed Medi, 2019 at 2.00 pm**

5. **Y Flwyddyn Ddemocrataidd**

Roedd y meysydd a drafodwyd yn cynnwys:

Ymgysylltu â'r Cyhoedd – Caiff swydd y Swyddog Craffu ei hysbysebu yr wythnos hon. Mae gwaith yn dal ar ôl i'w wneud ar eglurdeb am flaen-gynllunwyr. Yn nhermau'r flwyddyn i ddod hoffai'r Pwyllgor weld:

- Gwelliannau i'r cynllun gwaith
- Ymgysylltu effeithlon
- Sir Fynwy ar Agor – parhau neu beidio?

Dywedodd Aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld pa gynigion a wnaethpwyd drwy'r is-grŵp.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y dilynol:

- Cynyddu ymgysylltu drwy Bwyllgorau Ardal
- Bwrw golwg ar gynllun peilot Pwyllgor Ardal Gogledd Mynwy.
- Sut mae'r gwneud penderfyniadau yn mynd drwodd i'r Cyngor.

Esboniodd y Pennaeth Democratiaeth a Llywodraethiant, yn dilyn y cynllun peilot, y dylid gwneud penderfyniad os y dylid cynnig yr un system i'r Pwyllgorau Ardal eraill, gan roi ystyriaeth i drefniadau clwstwr.

6. **Wythnos Democratiaeth Genedlaethol**

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth y cynhelir yr Wythnos Democratiaeth Genedlaethol yn dechrau ar 14 Hydref 2019.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cymryd rhan yn y gorffennol ond nid oes unrhyw gynlluniau cadarn eleni.

Cytunwyd dosbarthu unrhyw wybodaeth sy'n deillio yn ystod y digwyddiad.
.

7. **Adolygiad o Gyfansoddiad y Cyngor**

Hysbyswyd Aelodau bod y Pennaeth Cyfreithiol/Swyddog Monitro yn cynnal adolygiad o gyfansoddiad y Cyngor ac y byddai'n croesawu sylwadau am unrhyw feysydd sydd angen sylw. Byddai hyn yn eitem ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf.

8. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2019 eu cadarnhau a'u llofnogi gan y Cadeirydd.

Wrth wneud hynny, nodwyd y bu'r Cynghorydd Davies yn bresennol.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd held at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 9fed Medi, 2019 at 2.00 pm

**9. Nodi dyddiad y cyfarfod nesaf fel Dydd Llun 18 Tachwedd 2019 am 2pm**

Nodwyd.

**10. Adolygu Datblygiad Personol**

Cawsom adroddiad i ystyried a chymeradwyo proses yr Adolygiad Datblygiad Personol ar gyfer aelodau etholedig. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ynghylch cyfleoedd hyfforddiant a datblygu. Ymarfer hunanarfarnu fyddai hwn.

Cadarnhawyd bod cofnodion hyfforddiant yn cael eu cadw drwy Modern.Gov.

Nodwyd bod gwahaniaeth rhwng hyfforddiant ar gyfer effeithlonrwydd a hyfforddiant statudol. Dylid tynnu sylw at fylchau mewn hyfforddiant statudol.

Trafodwyd y cyfleoedd hyfforddiant a gynigir drwy Talent Lab a sut y dylid nodi lle mae'r cyfleoedd hyn yn agored i Aelodau.

Y cam nesaf yw bwrw ymlaen â hyn at Arweinwyr Grŵp ac Aelodau.

Cafwyd trafodaeth ynghylch pwy fyddai'r person addas i gynnal yr adolygiad. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn rôl i'r Swyddog Craffu newydd, neu rôl Adnoddau Dynol, ond byddai hyn yn cael ei drafod. Mynegodd yr Aelodau bwysigrwydd pwynt cyswllt sengl.

**The meeting ended at 3.45 pm**